**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**DEDDF CYNRYCHIOLAETH Y BOBL 1983**
**ADRANNAU 18A, 18B A 18C**

**ADOLYGU DOSBARTHAU PLEIDLEISIO, MANNAU PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO**

Dyma **HYSBYSIAD** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar fin dechrau adolygu Dosbarthau Pleidleisio, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio o fewn ardal yr Awdurdod Lleol.

Mae modd archwilio dogfennau mewn perthynas â'r adolygiad yma yn swyddfa'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ystod oriau swyddfa arferol, a hefyd, ar wefan y Cyngor: https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/Votingandelections/Votingandelections.aspx

Bydd yr adolygiad yn cynnwys sylw gan y Swyddog Canlyniadau ynglŷn â'r Gorsafoedd Pleidleisio arfaethedig ac mae'r Cyngor yn gwahodd sylwadau gan etholwyr sy'n byw yn yr ardal uchod.

Byddai'r Cyngor hefyd yn croesawu sylwadau gan unrhyw gorff neu unigolion ag arbenigedd mewn mynediad ar gyfer pobl ag anableddau neu farn ar sylwadau'r Swyddog Canlyniadau.

Dylai'r rheiny sydd am gyflwyno sylwadau, boed yn unigolyn neu'n gorff, nodi mannau eraill i'w defnyddio yn orsafoedd pleidleisio, os yw'n bosibl. Serch hynny, does dim angen cyfyngu sylwadau i gynigion amgen a bydden ni'n croesawu cefnogaeth i'r trefniadau presennol hefyd.

Rhaid cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a'u hanfon i'r cyfeiriad isod, neu drwy e-bost i'r cyfeiriad yma: GwasanaethauEtholiadau@rctcbc.gov.uk.

Rhaid i bob sylw ddod i law erbyn 17 Tachwedd 2023.

**Andrew Wilkins**
**Swyddog Cofrestru Etholiadau a Swyddog Canlyniadau (Dros dro)**

Gwasanaethau Etholiadol
10-12 Heol Gelliwastad
Pontypridd
CF37 2BW

9 Hydref 2023